

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / The Culture, Welsh Language and
Communications Committee
Ymchwiliad byr i oblygiadau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd / Short inquiry into the
implications of Brexit
CWLC(5) BREXIT10
Ymateb gan Cyngor Llyfrau Cymru / Evidence from Welsh Books Council

Cost uwch a llai o gystadleuaeth.

Mae pryderon gwirioneddol am effeithiau Brexit o fewn y diwydiant llyfrau yng Nghymru. Mae'r dirywiad yng ngwerth y bunt eisoes wedi arwain at gynnydd o 25% mewn prisiau papur, a chynnydd mewn costau ynni a chludiant ar gyfer argraffwyr yng Nghymru. Bydd cyhoeddwr o Gymru, sy'n argraffu yng Ngwlad Pwyl, y Weriniaeth Tsiec, Slofenia a Lithwania, yn cael eu llethu gan gostau gweinyddol ychwanegol, tra'n colli mynediad i amrywiaeth o gyflenwyr rhyngwladol cystadleuol. Mae cyhoeddwr eisoes wedi cael gohebiaeth gan Gyllid y Wlad i'r perwyl hwn. Mae'r cyhoeddwr sy'n argraffu teitlau yn Hong Kong a Tsieina yn debygol o wynebu mwy o faich gweinyddol tollau, cynyddu costau tariff ac amharu ar drefniadau trafniadaeth gan fod y rhan helaeth o'r llongau yn glanio yn yr Iseldiroedd cyn anfon nwyddau ymlaen i Brydain. Mae parodrwydd Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer Brexit yn y maes hwn yn ddibynnol ar pa fath o drefniant tollau fydd yn cael ei gytuno, a sut y gall cyhoeddwr Cymru i ymateb i'r trefniant yma.

Llai o gyfle i gydweithredu â phartneriaid yn Ewrop

Yn y gorffennol, cyfoethogwyd llenyddiaeth drwy gydweithredu ar brosiectau drwy gynlluniau ariannu Ewropeaidd megis "Llenyddiaeth ar draws ffiniau", Ewrop Greadigol, Horizon 2020 ac Erasmus. Bydd llai o gyfleoedd i awduron (oherwydd diffyg mynediad i raglenni celfyddydau a diwylliant Ewropeaidd) yn arwain at gyhoeddwr sy'n cymryd llai o risg, ac felly ddim yn cymell talent newydd i ymuno â'r diwydiant. Mae cyhoeddiadau'r Brifysgol hefyd yn cael eu hariannu drwy Gynghorau Ymchwil Ewropeaidd, a gall colli mynediad i arian Ewropeaidd arwain at fwy o ddibyniaeth ar gyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain. Mae angen i barodrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit yn y maes hwn ganolbwyntio ar sicrhau bod modd i Gymru barhau i gymryd rhan mewn cynlluniau o'r fath, fel y gall partneriaid baratoi cynlluniau hirdymor.

Canfyddiad o Gymru gan weddill Ewrop

Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gall Cymru farchnata ei hun yn effeithiol yng nghyd-destun y DU. Bydd colli ymwelwyr o weddill Ewrop yn cael effaith, nid yn unig ar fusnesau sy'n dibynnu ar y fasnach dwristiaeth, ond llyfrwerthwyr lleol a gwerthu cyhoeddiadau twristaidd arbenigol. Mae llai o siop llyfrau yn golygu llai o gyfle i arddangos llyfrau a chynyddu dibyniaeth ar gadwyni/mân-werthwyr ar-lein sy'n gweithredu cyfundrefn brynu llawer mwy dethol a chosbi (teitlau disgownt uchel yn unig). Yn hanesyddol, roedd Cymru'n cael ei gweld fel aelod unigryw a phenodol o'r teulu Ewropeaidd o genhedloedd bach; ond yn awr fe'i gwelir fel rhan o Brydain. Mae angen i Lywodraeth Cymru baratoi ar gyfer sut y bydd yn parhau i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan unigryw.

Bygythiad posibl i'r lefel o cefnogaeth i'r celfyddydau a'r iaith Gymraeg

Prydera'r cyhoeddwr na fydd y celfyddydau yn cael eu hystyried yn wasanaethau hanfodol ac felly'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan unrhyw doriadau posibl. Yn ystod y degawd diwethaf, ni chynyddodd lefel y grantiau presennol yn unol â chwyddiant ac mae'r sector eisoes yn wynebu pwysau ariannol cynyddol. Mae unrhyw ostyngiadau mewn grantiau yn debygol o arwain at gollu swyddi yn ogystal â llai o weithgarwch cyhoeddi. Bydd hyn yn arwain at lai o ddewis mewn llyfrau print a digidol ac yn fygythiad gwirioneddol i gylchgronau sy'n chwarae rôl hanfodol o ran amrywiaeth cyfryngau yng Nghymru. Mae angen buddsoddi er mwyn datblygu dewis mewn meysydd megis llyfrau sain, fformatau digidol newydd a meysydd pynciau arbenigol.

Mae pob cyhoeddwr a gefnogir gan y Cyngor Llyfrau yn fusnesau bach sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig difreintiedig, a byddai colledion swyddi posibl yn cael effaith anghymesur. Mae cyhoeddwr a llyfrwerthwyr Cymreig yn rhan o'r economi sefydledig yng Nghymru ac mae ganddynt lefel anarferol o uchel o wariant ar gynnyrch a gwasanaethau lleol (e.e. golygyddion ar eu liwt eu hunain, dylunydd, prawf ddarllenwyr). Byddai unrhyw leihad yn y gweithgarwch cyhoeddi yn arwain hefyd at lai o waith yn y sector llawrydd, fyddai hefyd yn arwain at lai o gynnyrch ar gael i siopau llyfrau werthu.

Mae awduron yn hanfodol bwysig i gyhoeddwyr. Mae pryder y bydd gostyngiad yn y grant yn arwain at lai o gyfleoedd i awduron, gan fod cyhoeddwyr yn llai tebygol o fentro yn ystod cyfnodau o ansicrwydd. Gallai hyn arwain at golli cenhedlaeth gyfan o dalent i ddiwydiannau eraill sy'n fwy proffidiol.

Gofyniad cyfreithiol gwahanol yn arwain at brosesau gwahanol

Mae angen i LIC ystyried yr effaith ar ddiogelu hawlfraint a gwerthiannau IP o fewn y diwydiant cyhoeddi. Gallai hyn arwain at fwy o faich gweinyddol a threthu dwbl wrth ddatblygu adnoddau sydd â chynulleidfa UE ond lle mae'r ddeddfwriaeth yn wahanol.

Dylai'r DU barhau i ddefnyddio safonau rhyngwladol cydnabyddedig fel ISBN, ONIX a ISSN, fel yr argymhellir gan yr IPA (International Publishers Association). Mae angen i LIC ddechrau deialog gyda'r IPA ynghylch y ffordd orau o sicrhau cydweithrediad parhaus.

Mae posibilrwydd y bydd y DU yn araf yn datblygu cynhyrchion cost ddwys newydd; megis llyfrau sain a fformatau digidol. Gan na fydd y DU yn rhan o unrhyw drafodaethau UE ar fformatau yn y dyfodol -byddant yn colli eu llais. Pwysa gwledydd Ewrop am fformatau amlieithog, tra gall y DU ddewis fformat uniaith. Dylai LIC sicrhau y bydd unrhyw Reoliadau'r UE ar fformatau hefyd fod yn berthnasol i'r DU.

Yn olaf - dylid sicrhau parhad polisiau amgylcheddol UE fel defnydd o ISO14000 o fewn y farchnad argraffu, er mwyn sicrhau fod ystyriaeth o oblygiadau amgylcheddol ar eu prosesau cynhyrchu.